Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Allwch chi fod yn Asiant dros Newid i ni?

## Gwybodaeth am swydd newydd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei darllen o 'Allwch chi fod yn Asiant dros Newid'.

Dyddiad: Chwefror 2021

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Ond efallai y byddwch chi dal angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Maen nhw wedi cael eu hesbonio mewn blwch o dan y gair.




Os yw'r gair yn cael ei ddefnyddio eto mewn ysgrifen glas arferol. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar dudalen XX.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Cyngor Celfyddydau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



**Carys Hedd Paschalis**

**E-bost:** hr@arts.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.**

# Cynnwys

Tudalen


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........2

Cyflwyniad........4

Beth yw'r swydd........6

Pa sgiliau a phrofiadau rydych chi eu hangen ar gyfer y swydd?........9

Beth byddwn ni'n ei roi i chi........11

Sut i wneud cais........13

Geiriau anodd........15

# Cyflwyniad



Rydym am newid y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda rhai **grwpiau o bobl**. Er enghraifft:



- Pobl o gefndiroedd **Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol**.

Gall pobl o gefndiroedd **Du, Asiaidd ac Ethnig amrywiol** ddod o wahanol wledydd. Efallai bod ganddynt gredoau, gwerthoedd a diwylliannau gwahanol.




- Pobl sy'n Fyddar



- Pobl anabl



Rydyn ni am sicrhau bod y **grwpiau hyn o bobl** yn cael digon o gyfleoedd i weithio a bod yn rhan o'r celfyddydau.



Nid ydyn ni’n credu bod y **grwpiau** hyn wedi cael digon o gyfle i gymryd rhan. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod hyn yn newid.




Rydyn ni’n gofalu am gyllid ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.



Mae angen i ni reoli ein cyllid mewn ffordd sy’n helpu i sicrhau bod **pawb** yn cael y cyfle i fod yn rhan o’r celfyddydau.



Rydyn ni hefyd am weld mwy o bobl o’r **grwpiau** hyn ar ein tîm staff.



Elusen ydyn ni. Mae hyn yn golygu bod ein gwaith yn cael ei wirio gan **fwrdd o lywodraethwyr**. Rydyn ni am i bobl o’r **grwpiau** fod ar **fwrdd y llywodraethwyr** hefyd.



Rydyn ni am gyflogi rhywun i helpu i wneud yr holl newidiadau hyn.Os ydych chi’n credu y gallech chi fod y person hwn, bydden ni’n hoffi glywed gennych chi.

# Beth yw'r swydd




**Asiant dros Newid** yw enw'r swydd hon.



Fel yr **Asiant dros Newid** byddwch chi'n defnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod a'ch profiadau eich hun i wneud y canlynol:



- gallu gweld sut a phryd nad yw pobl yn cael eu trin yn deg



- dweud **beth** sydd angen ei wneud i newid hyn

- a helpu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru.



Byddwch chi'n deall ac yn defnyddio profiadau pobl o'r grwpiau.



Byddwch chi'n cefnogi ein staff i wneud newidiadau.



Dyma rai o'r pethau y bydden ni'n hoffi i chi eu gwneud:




1. Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn haws i ddod o hyd iddo, ei ddefnyddio a'i ddeall ar gyfer y grwpiau o bobl. Er enghraifft, gallai hyn olygu sicrhau bod ein cynlluniau mewn gwahanol ieithoedd.



2. Gweithio gyda **grwpiau** yng Nghymru sydd heb ddigon o lais yn y celfyddydau. Ac sydd wedi cael profiadau gwael.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

3. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru.



4. Helpu i wneud ein tîm staff yn fwy **amrywiol**

Mae **amrywiol** yn golygu pobl o wahanol gefndiroedd a gydag anghenion gwahanol.




5. Ein cefnogi i ysgrifennu nodau newydd.



6. Helpu i sicrhau bod ein staff yn cael yr hyfforddiant cywir.



7. Helpu ni i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o wirio'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

# Pa sgiliau a phrofiadau rydych chi eu hangen ar gyfer y swydd?




Byddwch chi'n angerddol am gydraddoldeb a thrin pobl yn deg.




Byddwch chi am wneud gwahaniaeth mawr i'r celfyddydau yng Nghymru.



Mae'n bwysig iawn bod gennych chi brofiad personol o'r **grwpiau o bobl** yr ydyn ni am eu cynnwys.



Byddwch chi'n gallu dod o hyd i'r ffyrdd gorau o weithio gyda'r **grwpiau o bobl**.



Bydd gennych chi brofiad o sut i wella cydraddoldeb.



Bydd yn ddefnyddiol os ydych chi'n deall sut mae pethau yng Nghymru.



Byddwch chi'n dda am ddweud beth sy'n bwysig i chi.



Byddwch chi'n dda am ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys problemau.

# Beth byddwn ni’n ei roi i chi



Rydyn ni’n deall y bydd hon yn swydd anodd. Felly, byddwn ni’n rhoi grŵp cymorth ar waith i’ch helpu.




Rydyn ni’n deall y bydd yn cymryd amser i wneud newidiadau. Dyna pam y bydd y swydd am 2 neu 3 blynedd.



Rydyn ni’n agored i siarad am sut y gellid gwneud y gwaith.



Byddwch chi’n gweithio gydag aelodau ein Cyngor yn aml.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Byddwch chi’n adrodd i’n **Prif Weithredwr**.



Y cyflog ar gyfer y swydd hon yw £59,269.



Byddwn ni'n siarad mwy am sut y gellir gwneud y gwaith pan fyddwn ni'n cynnig y swydd i rywun.



Bydd y sawl sy'n cael y swydd yn cael ei ddewis gan grŵp o bobl o wahanol gefndiroedd a gydag anghenion gwahanol.




Byddan nhw'n edrych ar ba brofiad sydd gennych chi a allai eich helpu i wneud y 7 peth y byddwn ni'n hoffi i chi eu gwneud sydd wedi'u rhestru ar dudalen XX



Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Carys Hedd Paschalis:

E-bost: hr@arts.wales

# Sut i wneud cais



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gwneud cais am y swydd yn deg.



Os ydych chi angen unrhyw gymorth i wneud cais, cysylltwch â ni.




Nid oes ffurflen gais ar gyfer y swydd hon.



Hoffen ni i chi ysgrifennu **Datganiad o Ddiddordeb**.



Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n ysgrifennu yn eich geiriau eich hun pam eich bod chi am gael y swydd.



Mae angen i chi sicrhau eich bod chi'n dweud wrthyn ni:


- Pam mae gennych chi ddiddordeb yn y swydd
- Pa wybodaeth a phrofiad sydd gennych chi y gallwch chi eu defnyddio i wneud y gwaith
- Sut rydych chi'n meddwl y dylid gwneud y gwaith.



Anfonwch eich llythyr drwy e-bost i: hr@arts.cymru




Rhaid i'ch llythyr ein cyrraedd erbyn 10 Mawrth 2021.




Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 24 a 25 Mawrth 2021.

# Geiriau anodd

## Cefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol

Gall pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig amrywiol ddod o wahanol wledydd. Efallai bod ganddynt gredoau, gwerthoedd a diwylliannau gwahanol.

## Amrywiol

Mae hyn yn golygu pobl o wahanol gefndiroedd a gydag anghenion gwahanol.